OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2001 No. 2504

# Gorchymyn Deddf Safonau Gofal 2000 (Cychwyn Rhif 5 a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2001

**Enwi a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Safonau Gofal 2000 (Cychwyn Rhif 5 a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2001.

(2) Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "Deddf 2000" ("*the 2000 Act*") yw Deddf Safonau Gofal 2000;

ystyr "Deddf 1984" ("*the 1984 Act*") yw Deddf Cartrefi Cofrestredig 1984(**1**);

ystyr "y Cynulliad Cenedlaethol" ("*the National Assembly*") yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

(**1**) 1984 p.23.